

Hyrwyddwr Cynorthwywyr Addysgu ar gyfer cyrff llywodraethu ysgolion – disgrifiad rôl enghreifftiol

Darperir y ddogfen hon er mwyn rhoi dealltwriaeth i gyrff llywodraethu ysgolion yng Nghymru o fanteision penodi hyrwyddwr Cynorthwywyr Addysgu ar gyfer eu hysgolion a'r dyletswyddau y gallant eu cyflawni. Nid yw penodi hyrwyddwr Cynorthwywyr Addysgu yn newid y gofynion ar gyrff llywodraethu i gyflawni eu swyddogaethau statudol.

Pam mae angen hyrwyddwr Cynorthwywyr Addysgu ar fy nghorff llywodraethu?

Rydym yn annog pob corff llywodraethu yng Nghymru i benodi Hyrwyddwr Cynorthwywyr Addysgu i sicrhau bod y rôl bwysig y mae staff cymorth ysgolion yn ei chwarae fel rhan o'r gweithlu addysg cyfunol yn cael ei chydabod a'i gwerthfawrogi. Mae'r rolau y maent yn ymgymryd â hwy yn hanfodol ar gyfer y gwaith o ddarparu addysg ledled Cymru. Bydd yr Hyrwyddwr Cynorthwywyr Addysgu yn siarad ar ran Cynorthwywyr Addysgu ac yn sicrhau bod eu safbwynt yn cael ei ystyried pan fydd penderfyniadau yn cael eu gwneud a pholisïau yn cael eu datblygu gan ysgolion, a gallant hefyd helpu i gynorthwyo â chanlyniadau sy'n ymwneud â:

- Bod yn fwy effeithiol yn eu swydd
- Nodi blaenoriaethau datblygiad proffesiynol
- Annog perthynas fwy effeithiol a chyson gyda staff a disgyblion eraill i godi safonau
- Cael yr un negeseuon cadarnhaol a chyson am yr ysgol, ei gwerthoedd a'i pholisïau.

Beth yw'r swydd?

Dylai Hyrwyddwr Cynorthwywyr Addysgu ystyried Cynorthwywyr Addysgu a'r rolau y maent yn eu chwarae, a bod yn barod i'w cynrychioli ym mhenderfyniadau llunio polisi yr ysgol. Dylent fod yn gyfforddus wrth herio arweinwyr a llywodraethwyr ysgolion pan fo angen, gan godi ymwybyddiaeth o faterion sy'n ymwneud â Chynorthwywyr Addysgu. Mae'r rôl yn addas ar gyfer pennu arferion da, ac ar gyfer agweddau craffu ac adolygu gwasanaethu ar gorff llywodraethu.

Pa gymwysterau, hyfforddiant neu brofiad arbennig sydd eu hangen i ymgymryd â'r rôl hon?

Dim. Yr unig beth sydd ei angen ar Hyrwyddwr Cynorthwywyr Addysgu yw angerdd tuag at gynrychioli'r grŵp staff hwn. Gall aelod newydd neu bresennol o'r corff llywodraethu lenwi'r swydd hon, a dylai fod yn benderfynol o ran datblygu rôl Cynorthwywr Addysgu yn yr ysgol.

Fodd bynnag, efallai y bydd hyrwyddwr am fanteisio ar unrhyw hyfforddiant ychwanegol a gynigir gan ei awdurdod lleol neu gonsortiw. Bydd hyn yn helpu i sicrhau ei fod yn meddu ar yr wybodaeth a'r adnoddau i helpu'r tîm arwain yn yr ysgol i ddefnyddio a chefnogi Cynorthwywyr Addysgu yn yr ysgol yn effeithiol.

Mae'r rôl Cynorthwydd Addysgu yn cynnwys gweithio gydag ystod eang o staff addysgu a staff nad ydynt yn addysgu mewn ysgol. Bydd angen i Hyrwyddwr Cynorthwywyr Addysgu werthfawrogi gwahanol rolau staff yn yr ysgol a'r broses o wneud penderfyniadau o fewn strwythur staffio cyffredinol yr ysgol.

Pa gwestiynau y dylai'r hyrwyddwr Cynorthwywyr Addysgu fod yn eu gofyn i'r pennaeth a'r corff llywodraethu?

Dylai'r hyrwyddwr Cynorthwywyr Addysgu fod yn barod i ofyn beth mae'r pennaeth a'r corff llywodraethu yn ei wneud i sicrhau bod rôl y Cynorthwywyr Addysgu yn cael ei defnyddio a'i chefnogi'n effeithiol. Dyma rai enghreifftiau:

- Pa lefelau o Gynorthwywyr Addysgu sydd gennym yn yr ysgol a sawl un o bob un?
- A yw llywodraethwyr yn ymwybodol o'r gwahanol lefelau o Gynorthwywyr Addysgu a'r gwahaniaeth rhwng y rolau ar bob lefel?
- A ofynnir i Gynorthwywyr Addysgu gyflawni tasgau y tu allan i'r rôl y maent yn cael eu cyflogi i'w gwneud?
- Pa dystiolaeth sy'n bodoli i ddangos bod hyfforddiant cyfartal yn bodoli rhwng gwahanol rolau o fewn yr ysgol, hynny yw Athrawon a Chynorthwywyr Addysgu?
- A yw uwch-aelodau o staff a deiliaid Cyfrifoldeb Addysgu a Dysgu yn ymwybodol o'r rôl y mae Cynorthwywyr Addysgu yn ymgymryd â hi?
- O fewn yr ysgol, a oes gan Gynorthwywyr Addysgu ddisgrifiad swydd?
- A yw Cynorthwywyr Addysgu ar y raddfa gyflog briodol ar gyfer y rôl y maent yn ei chyflawni?
- Pa ganllawiau sydd ar gael i staff i'w cynorthwyo i ddefnyddio Cynorthwywyr Addysgu yn effeithiol?
- Sut mae Cynorthwywyr Addysgu yn cael eu hymgorffori mewn gweithgareddau Dysgu a Datblygu, gan gynnwys cymryd rhan mewn diwrnodau Hyfforddiant mewn Swydd (HMS)?
- A yw datblygiad Cynorthwywyr Addysgu yn cael ei flaenoriaethu yn yr un modd â datblygiad athrawon?
- A all Cynorthwywyr Addysgu gael hyfforddiant yn ystod y diwrnod ysgol?
- Pwy yw'r unigolyn/unigolion cymorth a enwir, y gall Cynorthwywyr Addysgu gysylltu â hwy mewn achos o bryder? Pa brosesau sydd ar waith i helpu Cynorthwywyr Addysgu i godi llais heb ofni cael eu ceryddu ac yn hyderus y bydd y mater yn cael ei drin yn y ffordd gywir?
- Sut yr ymgynghorir â Chynorthwywyr Addysgu fel rhan o hunanarfarnu ysgol gyfan?
- Pa mor aml y cynhelir arolygon lles Cynorthwywyr Addysg?

- Sut mae Cynorthwyr Addysgu yn cael eu cynnwys mewn mentrau arloesol sy'n cael eu datblygu?
- Sut mae syniadau a safbwyntiau Cynorthwyr Addysgu yn cael eu clywed a'u hystyried?
- Sut rydym yn sicrhau na fydd unrhyw newidiadau i bolisiau na pholisïau newydd mewn ysgol yn cael effaith andwyol ar rôl y Cynorthwydd Addysgu?